OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 872 (Cy. 65)

# DRAENIO TIR, CYMRU

## Gorchymyn Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Chil-y-coed a Gwynllŵg (Diddymu) 2015

*Gwnaed - - - - 24 Mawrth 2015*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1*

O dan adran 3(1)(a) ac adran 4(3) o Ddeddf Draenio Tir 1991 ("Deddf 1991")(**1**), mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("y Corff") wedi paratoi Cynllun yn gwneud darpariaethau ar gyfer materion a bennwyd yn adran 3(2)(d), (e) ac (i) o'r Ddeddf honno.

Yn unol ag adran 3(1) o Ddeddf 1991, mae y Corff wedi cyflwyno'r Cynllun i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi hysbysiad o fwriad i wneud y Gorchymyn canlynol yn cadarnhau'r Cynllun, yn unol â pharagraff 2(1) o Atodlen 3 i Ddeddf 1991. Mae Gweinidogion Cymru wedi anfon yr hysbysiad hwn at yr awdurdodau lleol perthnasol a chyrff eraill a bennir ym mharagraff 2(2) o'r Atodlen honno.

Ni wnaed unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn draft.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 3(5) a (7) o Ddeddf 1991 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Chil-y-coed a Gwynllŵg (Diddymu) 2015.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(**1**) 1991 p. 59. Disodlwyd cyfeiriadau at yr NRA gan gyfeiriadau at yr Asiantaeth gan baragraff 191 o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Diffiniwyd "The NRA" yn adran 72(1) o Ddeddf Draenio Tir 1991 fel yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol a diffiniwyd yr "Agency" fel Asiantaeth yr Amgylchedd. Disodlwyd cyfeiriadau at yr Asiantaeth gan gyfeiriadau at "the appropriate supervisory body" gan baragraff 317 o Ran 1 o Atodlen 2 i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013/755. Diffinir "the appropriate supervisory body" yn adran 72(1) o Ddeddf Draenio Tir 1991 fel Corff Adnoddau Naturiol Cymru mewn perthynas ag ardaloedd draenio mewnol sydd yn gyfan gwbl neu yn bennaf yng Nghymru.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas ag ardaloedd draenio mewnol sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, neu â byrddau'r cyfryw ardaloedd, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

**Cadarnhau'r Cynllun**

**2.**—(1) Mae'r Cynllun a gyflwynwyd gan y Corff wedi ei gadarnhau.

(2) Mae'r Cynllun wedi ei nodi yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Treuliau Gweinidogion Cymru**

**3.** Rhaid i dreuliau Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwneud a chadarnhau'r Gorchymyn hwn gael eu hysgwyddo gan y Corff.

*Carl Sergeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

24 Mawrth 2015

## YR ATODLEN

Erthygl 2(2)

## CYNLLUN 2014 I DDIDDYMU ARDALOEDD A BYRDDAU DRAENIO MEWNOL RHANNAU ISAF AFON GWY A CHIL-Y-COED A GWYNLLŴG A CHREU ARDAL DRAENIO MEWNOL NEWYDD A'I THROSGLWYDDO I GORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU A GYFLWYNWYD GAN GORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU

**1.** Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Ebrill 2015.

**2.** Yn y Cynllun hwn—

mae i "aelod" yr un ystyr a roddir i "*member*" yn adran 124(1) o ddeddf Pensiynau 1995(**3**);

mae i "aelod actif" yr un ystyr ag "*active member*" yn Atodlen 1 i Reoliadau LGPS;

ystyr "Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg" yw'r bwrdd draenio mewnol a gyfansoddwyd gan Orchymyn Ardal Draenio Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg 1942(**4**) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Bwrdd Afon Wysg 1954(**5**) ac ystyr "Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg" yw'r ardal draenio mewnol a gyfansoddir gan y Gorchmynion hyn;

ystyr "Bwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy" yw'r bwrdd draenio mewnol a gyfansoddwyd gan Orchymyn Bwrdd Dalgylch Afon Gwy (Ardal Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy) 1950(**6**) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy ac Afon Llugwy (Newid Ffiniau) 2014(**7**) ac ystyr "Ardal Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy" yw'r ardal draenio mewnol a gyfansoddwyd gan y Gorchmynion hyn;

ystyr "cyflogai" yw unigolyn sydd wedi ymrwymo i gontract gwaith neu gontract gwasanaeth neu brentisiaeth neu sy'n gweithio o dan delerau contract neu brentisiaeth o'r fath, pa un a yw'r cyfryw gontract wedi'i gytuno'n ddatganedig (yn ysgrifenedig neu ar lafar) neu fod hynny ymhlyg yn natur y berthynas, ond nid yw'n cynnwys unigolyn sy'n darparu gwasanaethau dan gontract ar gyfer gwasanaethau, a rhaid dehongli "cyflogwr" a "cyflogaeth" yn unol â hynny;

ystyr "Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol" yw'r cynllun a sefydlwyd gan y Rheoliadau LGPS;

ystyr "dyddiad cychwyn" yw'r dyddiad y daw'r Cynllun i rym;

ystyr "Rheoliadau LGPS" yw Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013(**8**);

ystyr "Rheoliadau Trosiannol LGPS" yw Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbed a Diwygio) 2014(**9**);

ystyr "y Corff" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru fel y'i cyfansoddwyd gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012(**10**).

### Diddymu Ardaloedd a Byrddau presennol a sefydlu Ardal newydd

**3.** O'r dyddiad cychwyn ymlaen—

(a) mae Ardal Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Bwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy wedi eu diddymu;

(b) mae Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg a Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg wedi eu diddymu;

(**3**) 1995 p. 26
(**4**) O.S. 1942/2393
(**5**) O.S. 1954/276
(**6**) O.S. 1951/3
(**7**) O.S. 2014/3194
(**8**) O.S. 2013/2356
(**9**) O.S. 2014/525
(**10**) O.S. 2012/1903

(c) bydd ardal draenio newydd a elwir "Ardal Draenio Mewnol Gwent" yn cael ei chyfansoddi ar gyfer y tir a oedd gynt o fewn Ardal Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a'r tir a oedd gynt o fewn Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg;

(d) y Corff fydd y bwrdd draenio ar gyfer Ardal Draenio Mewnol Gwent; ac

(e) bydd yr holl eiddo, hawliau, pwerau, dyletswyddau, rhwymedigaethau ac atebolrwydd fel yr oeddent wedi'u breinio ym Mwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy neu Fwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg neu i gael eu cyflawni gan y Byrddau hynny yn union cyn y dyddiad cychwyn, yn cael eu trosglwyddo i'r Corff a'u breinio ynddo, neu i gael eu cyflawni ganddo (yn ôl y digwydd).

**4.** Caiff y Corff adennill holl ôl-ddyledion ardrethi a godwyd gan Fwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy neu gan Fwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg cyn y dyddiad cychwyn mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod sy'n dod i ben cyn y dyddiad cychwyn yn yr un modd â phe baent wedi eu codi gan y Corff**.**

**5.** Yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol y caiff y Cynllun hwn ei wneud ynddi, caiff y Corff adennill ôl-ddyledion ardrethi dim ond hyd at y lefel a bennwyd gan Fwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg yn eu trefn ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

**6.** Mae'r Cynllun i'w weithredu fel tystiolaeth bendant o bob peth a drosglwyddwyd o dan y Cynllun hwn heb fod angen unrhyw aseiniadau, trawsgludiadau neu weithredoedd trosglwyddo pellach.

### Cyflogeion

**7.** O'r dyddiad cychwyn ymlaen, bydd holl gyflogeion Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg yn trosglwyddo i'r Corff.

### Pensiynau

**8.** Bydd unrhyw ddarpariaethau o'r Rheoliadau LGPS neu'r Rheoliadau Trosiannol LGPS a oedd yn union cyn y dyddiad cychwyn yn rhoi swyddogaethau i Fwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg yn rhinwedd y ffaith ei fod yn gyflogwr aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael effaith o'r dyddiad cychwyn ymlaen, fel pe bai y Corff yn gyflogwr ar yr aelod ar hyd yr amser pan oedd y person hwnnw yn aelod actif.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn cadarnhau Cynllun a gyflwynwyd gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer—

(a) diddymu Ardal a Bwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy ac Ardal a Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg;

(b) creu Ardal Draenio Mewnol newydd ar gyfer y tir a fu gynt o fewn Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Chil-y-coed a Gwynllŵg;

(c) darparu mai Corff Adnoddau Naturiol Cymru fydd y bwrdd draenio ar gyfer yr ardal newydd; a

(d) materion atodol neu ganlyniadol wrth y newid ffiniau.

Ni chafodd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.